

FY NEWS I

Rhwydwaith 14-19 Wrecsam 2023-2025



CROESO

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael i bob dysgwr ym mlynnyddoedd 10 ac 11.

Mae'r dewisiadau hyn yn darparu ystod eang o gyrsiau i roi ehangder i'ch astudiaethau. Maen nhw ar gael trwy eich ysgol a Rhwydwaith 14-19 Wrecsam sy'n bartneriaeth o ysgolion a cholegau yn ardal Wrecsam. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau cydweithredol ar gael ar ddydd Mawrth a dydd Mercher. Mae rhai'n cael eu darparu fin nos o 4:30 i 6:30. Fe all y cyrsiau gael eu darparu mewn ysgol arall neu yng Ngholeg Cambria. Efallai y bydd rhai myfyrwyr yn cael cynnig cwrs Cyfoethogi hefyd. Mae gwybodaeth am y cyrsiau hyn ar gael yn y llyfryn.

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau pori trwy'r ystod o gyrsiau, o gyrsiau cyffredinol fel Hanes, Addysg Grefyddol, Ffrangeg a'r Gyfraith, i gyrsiau galwedigaethol fel Trin Gwallt a Therapi Harddwch, Peirianeg, Lletygarwch ac Arlwy, Celfyddydau Perfformio, Gwasanaethau Cyhoeddus a Chwaraeon.

Gallwch ddewis o un neu fwy o'r Llwybrau Dysgu a'r cyrsiau a gynigir. Dewiswch yn ofalus. Gofynnwch i'ch Tiwtor, Hyfforddwr Dysgu neu Ymgynghorydd Gyrfaedd yn yr ysgol os ydych angen unrhyw gymorth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy:
www.gyrfacymru.com am yr holl ddewisiadau sydd ar gael trwy eich ysgol.



LLWYBRAU DYSGU



Mae'r tudalennau canlynol yn rhoi gwybodaeth am y Llwybrau Dysgu a'r cyrsiau sydd ar gael. Ar bob tudalen fe welwch:

- **Gyflwyniad sy'n rhoi syniad bras o'r hyn y mae'r llwybr yn ymwneud ag ef.**
- **Y cyrsiau sydd ar gael i chi yn 14 oed o fewn pob Llwybr Dysgu.**

Sylwer: bydd pob dysgwr yn astudio Saesneg, Cymraeg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Astudiaethau Crefyddol, Technoleg Gwybodaeth, Addysg Gorfforol a gwahanol elfennau o'r Craidd Dysgu. Mae'r rhain yn hanfodol ar gyfer eich dyfodol, pa bynnag lwybr y dewiswch ei ddilyn.

Gofynnir i chi hefyd ddewis nifer o opsiynau a allai fod yn unrhyw gyfuniad o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol. Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau yn cael eu darparu yn eich ysgol, ond mae rhai cyrsiau yn gydweithredol. Cynhelir y cyrsiau cydweithredol yng Ngholeg Cambria a byddant yn cynnwys cyfuniad o ddysgwyr o'ch ysgol chi ac o ysgolion eraill yn yr ardal.

- **Dynodiad o'r cyrsiau sydd ar gael i chi yn 16 oed ac enghreifftiau o gyfleoedd gyrfa o fewn y Llwybr.**

Celfyddydau Creadigol a'r Cyfryngau

**Ydych chi'n hoffi
dawns neu gerddoriaeth?**

**Ydych chi bob amser yn
tynnu llun neu'n dylunio
gwisgoedd newydd?**

**Ydych chi'n mwynhau
ychwanegu sain i'ch fideos
eich hun neu wneud DVDau
allan o'ch ffotograffau?**

**Gall hwn fod ar eich
cyfer CHI**

Cyrsiau CA 4

TGAU

Celf a Dylunio, Cerdd, Drama,
Astudiaethau Cyfryngau
Tecstilau

Cyrsiau Galwedigaethol
Celfyddydau
Perfformio

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch

Celf a Dylunio, Drama ac Astudiaethau
Theatr, Astudiaethau Ffilm, Astudiaethau
Cyfryngau, Cerdd, Ffotograffiaeth, Tecstilau

Cyrsiau Galwedigaethol

Celf a Dylunio, Cyfryngau Creadigol,
Celfyddydau Perfformio, Celfyddydau
Cynhyrchu, Technoleg Cerdd

**Dysgu yn y Gwaith
gan gynnwys
Prentisiaethau**

Dilyniant posibl yn 18 oed gan gynnwys prifysgol

Actor/Actores
Cyfarwyddwr Theatr
DJ
Animeiddiwr Cyfrifiadurol
Darlunydd
Y Diwydiant Teledu a Ffilm
Ffotograffydd, Cerddor
Dylunydd, Artist
Athro/Athrawes



Gwyddoniaeth a Mathemateg

**Ydych chi'n mwynhau
gweithio gyda rhifau?**

Ydych chi'n mwynhau arbrofi?

**Ydych chi'n mwynhau
dysgu am sut mae pethau'n
gweithio?**

**Gall hwn fod ar eich
cyfer CHI**

Cyrsiau CA 4

TGAU

Gwyddoniaeth Ychwanegol,
Gwyddoniaeth Gymhwysol,
Ffisioleg Ddynol, Mathemateg,
Seicoleg, Gwyddoniaeth, Ystadegau

Tair gwyddoniaeth ar wahân
(Ffiseg, Cemeg a Bioleg)

Cyrsiau Galwedigaethol
Gwyddoniaeth
Gymhwysol

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch

Bioleg, Cemeg, Daeareg,
Bioleg Ddynol, Mathemateg,
Mathemateg Bellach,
Ffiseg, Seicoleg

Cyrsiau Galwedigaethol
Gwyddoniaeth Gymhwysol

**Dysgu yn y Gwaith
gan gynnwys
Prentisiaethau**

Dilyniant posibl yn 18 oed gan gynnwys prifysgol

Cyfrifydd, Meddyg,
Adnoddau Dynol,
Meteorolegydd,
Nyrs, Ffisiotherapydd,
Seicolegydd, Gwyddonydd,
Athro/Athrawes,
Technegydd,
Milfeddyg

Dyniaethau

Ydych chi'n mwynhau dysgu am y gorffennol?

Ydych chi'n mwynhau darganfod mwy am bobl a sut maen nhw'n byw?

Ydych chi'n mwynhau trafod materion cyfoes?

Gall hwn fod ar eich cyfer CHI

Cyrsiau CA 4


TGAU
Daearyddiaeth
Hanes
Dyniaethau
Astudiaethau Crefyddol
Cymdeithaseg

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch
Gwareiddiad Clasurrol
Daearyddiaeth
Llywodraeth a Gwleidyddiaeth
Hanes
Addysg Grefyddol
Cymdeithaseg

Dilyniant posibl yn 18 oed gan gynnwys prifysgol

Archeolegydd
Hanesydd
Curadur Amgueddfa
Gwleidyddiaeth
Gweithiwr Cymdeithasol
Y Gwasanaeth Sifil
Athro/Athrawes
Cynllunyydd Tref



Ieithoedd

Ydych chi'n mwynhau darllen neu ysgrifennu?

Ydych chi'n hoffi defnyddio ieithoedd tramor a darganfod mwy am ddiwylliannau eraill?

Ydych chi eisiau gweithio dramor?

A fyddai rhuglder yn y Gymraeg o gymorth i chi yn eich gwaith?

Gall hwn fod ar eich cyfer CHI

Cyrsiau CA 4

TGAU
Saesneg,
Llenyddiaeth Saesneg,
Ffrangeg, Sbaeneg,
Cymraeg,
Llenyddiaeth Gymraeg

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch
Iaith Saesneg
Llenyddiaeth Saesneg
Iaith a Llen Saesneg
Ffrangeg
Almaeneg
Sbaeneg
Cymraeg

Dilyniant posibl yn 18 oed gan gynnwys prifysgol

Awdur /
Newyddiadurwr
Llyfrgellydd
Ieithydd
Athro/Athrawes
Arweinydd Teithiau
Cyfieithydd



TG a Chyfrifiadura

Ydych chi'n gallu helpu pobl eraill i ddefnyddio eu cyfrifiadur?

Ydych chi'n dylunio rhaglenni cyfrifiadurol?

Ydych chi eisiau gwybod mwy am sut mae cyfrifiaduron yn gweithio?

Gall hwn fod ar eich cyfer CHI

Cyrsiau CA 4

TGAU
Cyfrifiadura
Technoleg Gwybodaeth

Cyrsiau Galwedigaethol
Technoleg Gwybodaeth

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch
Cyfrifiadura
Technoleg Gwybodaeth

Cyrsiau Galwedigaethol
Technoleg Gwybodaeth
Sgiliau TGCh ar gyfer Busnes

Dysgu yn y Gwaith gan gynnwys Prentisiaethau

Dilyniant posibl yn 18 oed gan gynnwys prifysgol

Rhaglennydd Cyfrifiaduron
Rheolwr Data
Dylunydd Gemau
Ymgynghorydd TG
Cyfrifiadura Amlgyfrwng
Peiriannydd Rhwydwaith
Cynorthwydd Swyddfa



Chwaraeon a Hamdden

Ydych chi'n mwynhau Chwaraeon neu Weithgareddau Awyr Agored?

Ydych chi'n mwynhau gweithio gydag eraill ac fel aelod o dîm?

A fydddech chi'n hoffi gweithio yn y diwydiant Twristiaeth?

Gall hwn fod ar eich cyfer CHI

Cyrsiau CA 4

TGAU
Addysg Gorfforol

Cyrsiau Galwedigaethol
Hamdden a Thwristiaeth
Astudiaethau Chwaraeon

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch
Addysg Gorfforol

Cyrsiau Galwedigaethol
Hamdden a Thwristiaeth
Chwaraeon
Teithio a Thwristiaeth

Dysgu yn y Gwaith gan gynnwys Prentisiaethau

Dilyniant posibl yn 18 oed gan gynnwys prifysgol

Hyfforddwr Ffitrwydd
Cynrychiolydd Gwyliau
Rheolwr Canolfan Hamdden
Hyfforddwr Gweithgareddau Awyr Agored
Chwaraewr Proffesiynol
Gwyddonydd Chwaraeon ac Ymarfer Corff
Hyfforddwr Chwaraeon Athro/Athrawes
Rheolwr Canolfan Croeso
Ymgynghorydd Teithio

Dylunio, Technoleg, Peirianeg ac Adeiladu

Ydych chi'n mwynhau gwaith ymarferol?

Ydych chi'n helpu gyda DIY yn eich cartref?

Ydych chi'n mwynhau dylunio a gwneud pethau?

Gall hwn fod ar eich cyfer CHI

Cyrsiau CA 4

TGAU

Dylunio Cynnyrch
Deunyddiau Gwrthiannol
Graffeg
Technoleg Bwyd, Tecstilau

Cyrsiau Galwedigaethol
Peirianeg
Adeiladu

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch
Technoleg Dylunio, Electroneg

Cyrsiau Galwedigaethol
Cerbydau Modur, Adeiladu,
Peirianeg Sifil, Swyddi Trywel,
Paentio ac Addurno, Plastro,
Peirianeg Trydanol/Mecanyddol,
Galwedigaethau Pren,
Gweithrediadau Cynnal a Chadw,
Gosod Lloriau, Gwaith Plymwr,
Gosod Trydan

Dysgu yn y Gwaith
gan gynnwys
Prentisiaethau

Dilyniant posibl yn 18 oed gan gynnwys prifysgol

Technegydd Pensaer
Gosodwr Brics, Saer Dodrefn
Peintiwr ac Addurnwr
Peiriannydd Dylunio, Trydanwr
Peiriannydd Electroneg
Technegydd Cerbydau Modur
Plymwr
Syrffwr Meintiau
Peiriannydd Safle/Adeiladau



Busnes a Chyllid

Oes gennych ddiddordeb mewn cyllid neu'r gyfraith?

Ydych chi eisiau rhedeg eich busnes eich hun?

Ydych chi'n mwynhau trefnu gweithgareddau?

Gall hwn fod ar eich cyfer CHI

Cyrsiau CA 4

TGAU
Astudiaethau Busnes
Economeg
Y Gyfraith

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch
Astudiaethau Busnes
Economeg
Y Gyfraith

Cyrsiau Galwedigaethol
Gweinyddu
Busnes

Dysgu yn y Gwaith
gan gynnwys
Prentisiaethau

Dilyniant posibl yn 18 oed gan gynnwys prifysgol

Cyfrifydd, Clerc Cyfrifon,
Swyddog Gweinyddu,
Clerc Banc, Rheolwr Busnes,
Prynwr, Economegydd,
Entrepreneur,
Cyfreithiwr,
Ysgrifennydd Cyfreithiol,
Rheolwr Gwerthu,
Rheolwr Cludiant

Cyrsiau'r Tir

Ydych chi'n mwynhau gweithio gydag anifeiliaid?

Oes gennych ddiddordeb mewn ceffylau?

Ydych chi'n mwynhau gweithio yn yr awyr agored?

Gall hwn fod ar eich cyfer CHI

Cyrsiau CA 4

Cyrsiau Galwedigaethol
Gofal Anifeiliaid Bach

Dilyniant posibl yn 16 oed

Safon Uwch
Biolog

Cyrsiau Galwedigaethol
Gofal Anifeiliaid
Gofal a Rheolaeth Ceffylau

Dysgu yn y Gwaith
gan gynnwys
Prentisiaethau

Dilyniant posibl yn 18 oed
gan gynnwys prifysgol

Gofal Anifeiliaid
Nyrs Anifeiliaid
Gweithiwr Fferm
Hyfforddwr Ceffylau



Gwasanaethau i Bobl

Ydych chi'n mwynhau helpu pobl eraill?

Ydych chi'n gwrtais ac yn ddymunol tuag at eraill?

Ydych chi'n helpu mewn grŵp ieuencid neu mewn cartref gofal?

Gall hwn fod ar eich cyfer CHI

Cyrsiau CA 4

TGAU
Technoleg Bwyd,
Cymdeithaseg, Seicoleg

Cyrsiau Galwedigaethol
Gofal Plant, Gofalu am Gwsmeriaid,
Gwasanaethau Cyhoeddus,
Iechyd a Gofal Cymdeithasol,
Lletygarwch ac Arlwyo,
Sgiliau Manwerthu,
Trin Gwallt a Therapi Harddwch

Dilyniant posibl yn 16 oed

Cyrsiau Galwedigaethol
Therapi Harddwch
Gofal Plant ac Addysg
Gwasanaethau i Gwsmeriaid
Trin Gwallt
Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lletygarwch ac Arlwyo
Gwasanaethau Cyhoeddus
Manwerthu

Dysgu yn y Gwaith
gan gynnwys
Prentisiaethau

Dilyniant posibl yn 18 oed
gan gynnwys prifysgol

Therapydd Harddwch,
Gweithiwr Gofal, Cogydd,
Cynorthwydd Dosbarth,
Rheolwr Cynadleddau,
Cwnselydd, Triniwr Gwallt,
Nyrs, Rheolwr Siop,
Athro/Athrawes, Heddlu,
Gweithiwr Cymdeithasol

DARPARIAETH GYDWEITHREDOL

Cyrsiau hanner diwrnod

Busnes Lefel 2	Coleg Cambria lâl
Cyfrifiadureg Lefel 2	Coleg Cambria lâl
Adeiladu Lefel 1	Coleg Cambria Ffordd y Bers
Adeiladu Lefel 2	Coleg Cambria Ffordd y Bers
Peirianeg Lefel 1	Coleg Cambria Ffordd y Bers
Peirianeg Lefel 2	Coleg Cambria Ffordd y Bers
Gwallt a Harddwch Lefel 2	Coleg Cambria lâl
Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2	Coleg Cambria lâl
Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 2	Coleg Cambria lâl
Celfyddydau Perfformio Lefel 2	Coleg Cambria lâl
Gwasanaethau Cyhoeddus Lefel 2	Coleg Cambria lâl
Sbaeneg* Lefel 2	Coleg Cambria lâl
Chwaraeon Lefel 2	Coleg Cambria lâl

*Mae'r cwrs yn cael ei gynnal ar ôl ysgol 4.30 - 6.30pm



Gwybodaeth am Gyrsiau Cydweithredol

Bydd cyrsiau cydweithredol hanner diwrnod ar gyfer blwyddyn 10, sy'n dechrau ym mis Medi 2023, yn cael eu cynnal ar brynhawn dydd Mawrth.

Yn eich ysgol eich hun rydych yn ymwybodol o'r disgwyliadau uchel sydd gan eich ysgol ohonoch. Yn yr un modd, disgwylir i chi weithio'n galed ar gyrsiau cydweithredol, bod â lefel ardderchog o bresenoldeb, ac ymddwyn yn gyfrifol ac yn briodol er mwyn cyflawni eich potensial. Caiff eich ysgol wybod am eich presenoldeb bob wythnos ac yn cael adroddiadau rheolaidd am eich cynnydd.

Offer y Cwrs

Disgwylir i ddysgwyr ddarparu offer penodol sy'n briodol i'r cwrs ac mae hynny'n amrywio yn ôl y cwrs y byddwch yn ei astudio. Er enghraifft, mewn Adeiladu a Pheirianeg bydd angen dillad arbennig i fodloni gofynion iechyd a diogelwch.

Mae taflenni'r cyrsiau'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol am yr offer sy'n ofynnol ar gyfer pob cwrs a'r costau tebygol. Dylech drafod unrhyw anawsterau gyda darparu'r offer hwn gyda'ch ysgol.

Cynnig Lle ar Gwrs

Mae gan bob cwrs uchafswm o leoedd. Mae hyn oherwydd capasiti gofod addysgu neu ofynion iechyd a diogelwch. Fel arfer, bydd dysgwyr sy'n gwneud cais ar gyfer pob cwrs yn cael y cyfle i ymweld â Choleg Cambria fel rhan o'r broses dethol cwrs.

Cefnogir y ddarpariaeth gan gyfraniadau ariannol gan Lywodraeth Cymru ac Ysgolion Uwchradd Wrecsam. Dim ond os bydd digon o ddiddordeb a chyllid y byddwn yn cynnal y cyrsiau a gynnigir.

Cludiant

Bydd dysgwyr yn cael eu cludo i safleoedd y darparwyr cyrsiau ar ddechrau pob sesiwn addysgu prynhawn. Bydd y cyrsiau yn gorffen am 4.15pm ac mae'n rhaid i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr drefnu eu cludiant adref.

Os yw'r cyrsiau'n cael eu cynnal ar safle Ffordd y Bers, byddwn yn cludo'r dysgwyr yn ôl i Orsaf Fysiau Stryt y Brenin neu Goleg Cambria lâl, yn ôl y galw.

Mae'n rhaid i ddysgwyr wneud eu trefniadau cludiant eu hunain ar gyfer y cwrs Sbaeneg sy'n cael ei gynnal yng Ngholeg Cambria lâl.

CYFOETHOGI'R CWRICWLWM



Yn ychwanegol at y cyrsiau a ddisgrifiwyd eisoes yn y llyfryn hwn, mae Rhwydwaith 14-19 oed Wrecsam yn darparu cyrsiau Cyfoethogi Cwricwlwm. Mae'r ystod o gyrsiau hyn yn darparu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr 14 – 19 oed. Cafodd cymorth, cludiant a llwybrau dilyniant eu cynnwys i fodloni anghenion dysgwyr unigol a Llwybrau Dysgu.

Efallai bydd ysgolion yn argymhell i'w disgyblion fanteisio ar y ddarpariaeth hon.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dilyn cyrsiau Lefel 1 ac mae cyrsiau Lefel Mynediad ar gael hefyd. Cynhelir cyrsiau un diwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Ceir enghreifftiau o rai o'r cyrsiau isod.

Mae'r rhain yn amrywio'n flynyddol yn ôl y galw a'r cyllid.

Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel	Coleg Cambria lân
Cynnal a Chadw Systemau Cerbydau	Coleg Cambria Ffordd y Bers
Peirianeg	Coleg Cambria Ffordd y Bers
Sgiliau Adeiladu	Coleg Cambria Ffordd y Bers
Gofal Anifeiliaid	Coleg Cambria Llaneurgain
Ffotograffiaeth	Coleg Cambria lân
Lletygarwch ac Arlwyo	Coleg Cambria lân
Chwaraeon a Hamdden	Coleg Cambria lân
Sgiliau Datblygiad Personol	Groundwork Plas Power
Cerddoriaeth	Wrexham Sounds
Adeiladu	Coleg Cheshire West, Ellesmere Port
Peirianeg	Coleg Cheshire West, Ellesmere Port

BETH DDYLWN I EI WNEUD RŴAN?

Ystyriwch eich Llwybrau Dysgu posibl a thrafodwch gydag athrawon, rhieni ac ymgynghorwyr. Efallai y bydd eich dewis o gyrsiau yn dod o un neu fwy o Llwybrau Dysgu.

Darllenwch y wybodaeth y mae eich ysgol yn ei roi i chi am y pynciau sydd ar gael.

Darllenwch y daflen wybodaeth am unrhyw gyrsiau cydweithredol efallai y bydd gennych ddiddordeb ynddynt. Mae'r rhain ar gael gan eich ysgol ac ar-lein.

Ewch i nosweithiau cyngori / rhieni eich ysgol ac os ydych yn ystyried dilyn cwrs cydweithredol, ewch i dudalen gwe Rhwydwaith 14-19:

www.cambria.ac.uk/14-19-network

Yma gallwch ddod o hyd i wybodaeth ar gyfer yr holl gyrsiau cydweithredol sydd ar gael ar hyn o bryd*, ac am y tro cyntaf eleni, fideos tiwtoriaid – lle mae rhai o'n tiwtoriaid cwrs yn rhoi cipolwg byr i chi o'r cymwysterau sydd ar gael a beth sydd angen i chi ei wybod, i'ch helpu i benderfynu!

Dewiswch bob un o'ch cyrsiau yn yr ysgol (dim ond un cwrs cydweithredol hanner diwrnod gallwch chi ei ddewis gan eu bod i gyd yn cael eu cynnal yr un pryd, ac eithrio'r cwrs Sbaeneg min nos).

*Mae'r rhain yn newid yn flynyddol yn dibynnu ar y cyllid a'r galw.



